# Llinell amser chwarae yng Nghymru

**Yn 1997, mewn digwyddiad yng Nghaerdydd a gynhaliwyd fel rhan o Ddiwrnod Chwarae cenedlaethol Cymru, lobïodd grŵp o ymddiriedolwyr Play Wales Win Griffiths, AS ac Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru. Roedd yr ymddiriedolwyr yn gofyn am fwy o gefnogaeth wleidyddol ar gyfer creu sefydliad chwarae fyddai'n eiriol dros hawl plant i chwarae trwy Gymru.**

**Roedd Play Wales yn bodoli ers rhai blynyddoedd ond prin yn goroesi. Roedd chwarae wedi ei ddileu o'r agenda wleidyddol ac roedd y 1980au a'r 1990au wedi gweld llawer o doriadau a chau darpariaeth chwarae. Roedd addewid Win Griffiths i ariannu elusen genedlaethol Gymreig dros chwarae yn ddechrau cyfnod newydd ar gyfer chwarae yng Nghymru.**

**1998**

Sefydlu Play Wales/Chwarae Cymru fel elusen gofrestredig. Swyddfa Gymreig Llywodraeth y DU yn darparu cyllid cyfyngedig – digon i gyflogi pedwar aelod o staff rhan amser.

**1999**

Sefydlu Cynulliad Cenedlaethol newydd Cymru. Prif Weinidog Cymru, Alun Michael, yn annerch cynhadledd gyntaf Play Wales/Chwarae Cymru.

**2000**

Chwarae Cymru'n sicrhau cyllid i weithio gyda gweithwyr chwarae a hyfforddwyr gwaith chwarae profiadol o bob cwr o Gymru i ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer gwaith chwarae.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n darparu £1,000,000 i wella cyfleusterau chwarae mynediad agored ar gyfer plant. Dan yr enw Cynllun Grant Chwarae 2000, mae cyllid yn cael ei ddyrannu a'i reoli trwy bartneriaethau awdurdodau lleol (Partneriaethau Plant ac Ieuenctid).

*Cyflwr Chwarae 2000*, adroddiad ar sut y defnyddiwyd y Grant Chwarae, yn galw am bolisi a strategaeth chwarae cenedlaethol.

**2001**

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant. Mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo'r fframwaith sicrhau ansawdd a ddatblygwyd yn 2000.

Lansio *Yr Hawl Cyntaf … fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* gan y Gweinidog Plant. Dyma'r fframwaith sicrhau ansawdd gwaith chwarae cyntaf yn rhyngwladol i ganolbwyntio'n llwyr ar ateb anghenion chwarae plant.

Chwarae Cymru yn trefnu a throsglwyddo cynhadledd gyntaf Ysbryd Chwarae Antur.

Ariannu ar gyfer chwarae'n parhau (a'i reoli mewn modd tebyg y flwyddyn ariannol ganlynol hefyd).

**2002**

Llywodraeth Cymru'n creu'r *Polisi Chwarae*, gan ddod y wlad gyntaf yn y byd i fabwysiadu polisi chwarae cenedlaethol.

Ariannu i awdurdodau lleol ar gyfer chwarae yn dyblu ac yn cael ei adnabod fel y Grant Chwarae.

Y Play Safety Forum yn cyhoeddi datganiad sefyllfa *Managing Risk in Play Provision*.

Cyhoeddi *Yr Hawl Cyntaf – prosesau dymunol*. Dyma'r gyfrol ddilynol i *Yr Hawl Cyntaf*.

**2003**

Chwarae Cymru'n sicrhau cyllid i gyflogi dau swyddog datblygu – y naill i gefnogi datblygu chwarae a'r llall i gefnogi datblygu'r gweithlu. Sefydlu rhwydwaith o swyddogion chwarae awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

Y fenter Canolfannau Plant Integredig newydd yn rhoi cyllid i bob awdurdod lleol sefydlu darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored wedi'i staffio. Mae hyn yn seiliedig ar yr arddull meysydd chwarae antur.

Y Gweinidog Plant yn sefydlu Grŵp Cyflawni'r Polisi Chwarae. Rhoddir cytundeb i Blant yng Nghymru a Chwarae Cymru i ymchwilio a chyflwyno argymhellion y grŵp i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**2004**

Chwarae Cymru'n arwain adolygiad ac ymgynghoriad trwy'r DU ar y Tybiaethau a'r Gwerthoedd ar gyfer Gwaith Chwarae. Mae hyn yn arwain at greu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, datganiadau sy'n amlinellu beth yw chwarae a'r hyn y bydd gweithwyr chwarae'n ei wneud i'w gefnogi. Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n sefydlu'r fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae.

Cynnal ymgynghoriad ar sut y dylid gwario ariannu prosiectau'r Loteri FAWR yng Nghymru. Derbynnir ymateb ysgubol gan ddarparwyr chwarae'n galw am gefnogaeth ariannol ar gyfer chwarae plant.

Cynnal ymgynghoriad ar argymhellion Grŵp Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cronfa Cymorth i ddarparu rhwydwaith o gefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer plant. Cyfuno'r Grant Chwarae gydag ariannu arall ar gyfer Partneriaethau Fframwaith, gaiff ei hadnabod wedi hynny fel y Thema Chwarae.



**2005**

Y Gronfa Loteri FAWR yn cyhoeddi'r rhaglen Chwarae Plant – £13,000,000 o ariannu. Mae hyn yn rhan o arddull strategol sy'n anelu i ariannu creu isadeiledd chwarae yng Nghymru (cymdeithasau chwarae rhanbarthol) ac i ddatblygu prosiectau chwarae.

Chwarae Cymru yn dechrau gweithio ar ddatblygu a chynnal peilot o gymhwyster gwaith chwarae newydd yn seiliedig ar fframweithiau asesu ansawdd yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac *Yr Hawl Cyntaf* … Galluogir hyn trwy gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac ariannu Ewropeaidd.

**2006**

Lansio *Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae*, Llywodraeth Cymru.

Chwarae Cymru'n derbyn cytundeb i gefnogi rhaglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri FAWR. Chwarae Cymru'n llwyddo i gyflogi mwy o swyddogion datblygu a staff cymorth i ehangu ei waith.

Chwarae Cymru'n cynhyrchu ei ffilm hyfforddiant gwaith chwarae *Gwthio Eddie yn y Danadl Poethion gyda Connor*.

**2007**

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyllid ar gyfer Gwaith Chwarae Cymru, Canolfan Genedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i'w gweinyddu gan Chwarae Cymru.

MAWR (yr enw newydd ar Y Loteri FAWR) yn dyrannu cyllid ar gyfer prosiectau isadeiledd chwarae. Mae hyn yn arwain at sefydlu cymdeithas chwarae ranbarthol ym mhob ardal yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru'n darparu ariannu ychwanegol er mwyn i blant anabl gael mynediad i gyfleoedd chwarae.

**2008**

Chwarae Cymru'n ennill cais i gynnal cynhadledd chwarae ryngwladol yng Nghymru ar ran yr International Play Association (IPA) yn 2011.

Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3) yn cael ei gymeradwyo fel cymhwyster cydnabyddedig a'i achredu gan y Scottish Qualifications Authority (SQA).

**2009**

Cynhyrchu *Creu Cymru Egnïol,* cynllun gweithredu gweithgarwch corfforol cenedlaethol. Mae hwn yn nodi bod darparu mynediad i gyfleoedd ar gyfer chwarae o safon uchel, sy'n gorfforol heini, yn flaenoriaeth.

**2010**

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, sy'n ei gwneud yn amod gyfreithiol i awdurdodau lleol yng Nghymru asesu a sicrhau bod eu hardal yn darparu digon o gyfleoedd i blant chwarae.

Gwaith yn dechrau'n rhyngwladol i baratoi Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

MAWR yn buddsoddi mewn prosiectau chwarae rhanbarthol wedi'u staffio ar draws Cymru mewn ardaloedd ble y dynododd archwiliadau rhanbarthol sydd â diffyg darpariaeth chwarae wedi'i staffio.



**2011**

Chwarae Cymru'n cynnal cynhadledd 50fed pen-blwydd yr International Play Association (IPA) yng Nghaerdydd. Mae mwy na 500 o gyfranogwyr o 37 o wledydd yn ymgasglu i drafod a dathlu chwarae plant.

Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones yn derbyn Gwobr Hawl i Chwarae'r IPA ar ran Cymru wrth agor cynhadledd yr IPA.

Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad ar ddarpariaeth mannau diogel i chwarae a chymdeithasu. Mae hyn yn dilyn ymchwiliad 11 mis i'r cyfleoedd ar gyfer a'r rhwystrau i chwarae ar gyfer plant a phobl ifainc yng Nghymru.

Lansio Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, sy'n cydnabod yr hawl i chwarae a chyfraniad chwarae tuag at ddatblygiad a gwytnwch plant.

---

**2012**

Cynnal ymgynghoriad ar y cyfarwyddyd statudol drafft i awdurdodau lleol ar asesu a sicrhau bod eu hardal yn darparu digon o gyfleoedd i blant chwarae.

Cychwyn Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan gyntaf yn ei gwneud yn amod gyfreithiol i bob awdurdod lleol yng Nghymru asesu a sicrhau bod eu hardal yn darparu digon o gyfleoedd i blant chwarae. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i warchod hawl plant i chwarae mewn cyfraith.

Y Play Safety Forum a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cyhoeddi datganiad lefel uchel ar y cyd i hybu agwedd gytbwys tuag at reoli risg mewn chwarae plant.

Cyllid Cymorth yn cael ei ddisodli gan Gronfa Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer gwaith awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynrychioli cam tuag at wasanaethau wedi eu targedu fwy i fynd i'r afael â thlodi plant.

Llywodraeth Cymru'n dyfarnu cyllid i awdurdodau lleol i gynnal Asesiadau Digonolrwydd Chwarae.

---

**2013**

Dyrannu Grant Cynyddu Cyfleoedd Chwarae i Blant 2013 i 2014 Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i gefnogi eu paratoadau ar gyfer sicrhau bod eu hardal yn darparu digon o gyfleoedd i blant chwarae.

---

**2014**

Trwy ei Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd, mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Groundwork Cymru i drosglwyddo prosiect chwarae cymunedol, cynaliadwy, dros dair blynedd.

Cychwyn ail ran Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sy'n ei gwneud yn amod cyfreithiol i bob awdurdod lleol yng Nghymru i asesu yn ogystal â sicrhau bod eu hardal yn darparu plant gyda digon o gyfleoedd i chwarae.

Wedi colli ei ariannu, mae Chwarae Cymru'n sefydlu ymgyrch Cefnogi Chwarae Cymru er mwyn ceisio parhau â'i waith. Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Chwarae Cymru i gyflawni rhai elfennau o'i waith – gwasanaeth gwybodaeth, datblygu'r gweithlu ac eiriolaeth.

I gefnogi chwarae, mae Llywodraeth Cymru'n dyfarnu cyllid i awdurdodau lleol trwy Grant Sicrhau Cyfleoedd Chwarae Digonol 2014 i 2015.

Llywodraeth Cymru'n ariannu Coleg yr YMCA a Chwarae Cymru i ddatblygu cymhwyster Agored Cymru – Dyfarniad Lefel 3 Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau (MAHPS).



**2016**

Llywodraeth Cymru’n creu Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan 2016 i 2017 er mwyn i awdurdodau lleol symud camau gweithredu digonolrwydd chwarae yn eu blaen.

Llywodraeth Cymru’n ariannu Coleg yr YMCA a Chwarae Cymru i ddatblygu cymhwyster Agored Cymru – Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP).

**2017**

Llywodraeth Cymru’n creu Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan 2017 i 2018 er mwyn i awdurdodau lleol symud camau gweithredu digonolrwydd chwarae yn eu blaen.

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi *Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar – Cynllun Gweithlu* ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

Chwarae Cymru’n cyhoeddi *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, cynllun datblygu gweithlu ar gyfer y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.

**2018**

Llywodraeth Cymru’n dyrannu cyllid i awdurdodau lleol i gynnal Asesiadau Digonolrwydd Chwarae 2019.

Llywodraeth Cymru yn creu Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan 2018 i 2019 er mwyn i awdurdodau lleol symud camau gweithredu digonolrwydd chwarae yn eu blaen.

Chwarae Cymru yn lansio gwefan *Plentyndod Chwareus* sy’n anelu i helpu rhieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol i roi amser, lle a chefnogaeth i blant chwarae.

Chwarae Cymru yn dechrau gweithio gydag Agored Cymru i adolygu a diweddaru cymwysterau Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith ($P^3$).

Chwarae Cymru yn cynnal Symposiwm Chwarae dwyflynyddol Pedair Gwlad y DU: Mater o bolisi ac arfer.

**2019**

Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer ac yn cynnal Cynllun Peilot Gwaith Chwarae: Llwgu yn ystod y Gwyliau. Mae hwn yn anelu i brofi dichonoldeb mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau trwy leoliadau chwarae a chymunedol.

Llywodraeth Cymru yn creu Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan 2019 i 2020 er mwyn i awdurdodau lleol symud camau gweithredu digonolrwydd chwarae yn eu blaen.

Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn symud ymlaen gydag Adolygiad Gweinidogol o Chwarae. Mae'r Adolygiad yn sefydlu Grŵp Llywio i asesu gwaith Llywodraeth Cymru ar bolisi chwarae ac i hysbysu sut caiff yr agenda chwarae ei datblygu a'i symud yn ei blaen.

Cychwynnodd Chwarae Cymru y Prosiect Llysgenhadon Chwarae pedair blynedd o hyd a gynhelir ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n cynnwys gweithio gyda phobl leol i sefydlu Fforymau Chwarae Cymdogaethau i ddynodi ffyrdd o annog cyfleoedd rheolaidd i blant chwarae, ac mae hefyd yn cefnogi pobl ifanc 14 i 19 oed i ddod yn Llysgenhadon Chwarae Cymunedol gwirfoddol.

**2020**

Yn dilyn peilot llwyddiannus, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu £1,000,000 i gyflwyno Prosiect Gwaith Chwarae: Llwgu yn ystod y Gwyliau ar draws Cymru.

O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, mae cyllid y prosiect hwn yn cael ei ailgyfeirio a'i ddefnyddio at ddibenion gwahanol. Mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi darpariaeth ar gyfer plant bregus yn ystod gwyliau haf yr ysgol, gyda phwyslais ar chwarae.

Mae pecyn ariannu Ail-greu ar ôl Covid-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau yn cynnwys £3,000,000 o gyllid cyfalaf er mwyn i awdurdodau lleol wella cyfleoedd chwarae'r tu allan ar gyfer plant. Mae hefyd yn cynnwys £500,000 o gyllid refeniw ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig â darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio.

**2021**

Llywodraeth Cymru'n darparu ariannu COVID-19 pellach – dwy raglen wedi'u dylunio i gefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt ddod dros y pandemig:

- Haf o Hwyl – £5,000,000 o gyllid refeniw
- Gaeaf Llawn Lles – £6,000,000 o gyllid refeniw a £5,000,000 o gyllid cyfalaf.

**2022**

Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ar gyfer rhaglen Haf o Hwyl.

**2023**

Lansio International Play Association (IPA) Cymru Wales.

Cyhoeddi papur cefndir ac adroddiad Grŵp Llywio yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae. Chwarae Cymru yn derbyn y dasg o gydlynu ysgrifennu'r adroddiad terfynol a'r papur cefndir ar ran y grŵp llywio. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu Chwarae Cymru i gynhyrchu'r fersiwn o'r adroddiad ar gyfer plant a phobl ifanc.

Lansio *Dyma pam mae chwarae mor bwysig*, ffilm nodwedd fer Chwarae Cymru.

Mae Chwarae Cymru yn rhannu ac yn hyrwyddo enghreifftiau o waith, ymchwil a phrosiectau yn ystod gweithdai a sesiynau panel yng nghynhadledd yr International Play Association a gynhelir bob tair blynedd. Mae'r ffilm nodwedd newydd yn cael ei dangos yn ystod sesiwn lawn.

**2024**

Chwarae Cymru yn ymgynnull consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU a chychwyn adolygiad, wedi ei hunan-ariannu, o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae. Mae Chwarae Cymru yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y consortiwm.

Peilota *Chware o Safon* – marc ansawdd gwaith chwarae newydd Chwarae Cymru.

Lansio Dewch inni siarad am chwarae – cwrs wedi ei ardystio gan Chwarae Cymru. Mae'n cynnig cyflwyniad i chwarae a gwaith chwarae. Mae'r cwrs yn waddol y Prosiect Llysgenhadon Chwarae a arianwyd gan y Gronfa Iach ac Egnïol.

Cyhoeddi'r adolygiad llenyddiaeth, *Chwarae a lles.* Wedi ei gomisiynu gan Chwarae Cymru, mae'n adolygiad o ymchwil diweddar i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer, gyda ffocws ar Gymru.

Cynhelir Diwrnod Rhyngwladol Chwarae y Cenhedloedd Unedig cyntaf erioed ym mis Mehefin.

---

**2025**

Chwarae Cymru yn cydweithio gydag IPA Cymru Wales ac IPA Japan ar alwad genedlaethol ar y cyd i warchod amser chwarae mewn ysgolion ar Ddiwrnod Rhyngwladol Japan.

Llywodraeth Cymru yn darparu £5,000,000 ychwanegol i awdurdodau lleol i brynu eitemau i wella ansawdd mannau chwarae, adnewyddu meysydd chwarae a chefnogi'r gwaith o greu mannau chwarae cynhwysol a hygyrch.

Cyhoeddi *Tir cyffredin,* adroddiad ymchwil Chwarae Cymru sy'n archwilio aliniad ymarfer gwaith chwarae a gwaith ieuenctid.

Cyhoeddi adroddiad ymchwil *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025*. Mae bron i 8,000 o blant ac arddegwyr ledled Cymru yn dweud wrthym pa mor fodlon ydyn nhw gyda eu cyfleoedd i chwarae yn eu hardal leol.

Mewn Cyfarfod Llawn yn y Senedd, mae Aelodau'r Senedd yn trafod mynediad plant i chwarae. Mae pob un o'r prif bleidiau gwleidyddol yn siarad o blaid chwarae plant.

---

**2026**

Cyhoeddi adroddiad Chwarae Cymru, *Cyflwr Chwarae 2025*. Mae'n ddadansoddiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) a Chynlluniau Gweithredu Chwarae awdurdodau lleol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2025.

Chwarae Cymru yn lansio *Eiriol dros chwarae plant: maniffesto i Gymru* ac *'Y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi'* – maniffesto gan blant Cymru. Cyhoeddir y ddau faniffesto cyn etholiad y Senedd ym mis Mai.

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen gofrestredig, rhif 1068926

© Chwarae Cymru

Mai 2026